

# Er budd pawb...

## Cyngor Celfyddydau Cymru
## Cynllun Corfforaethol 2018 - 2023

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

*Clawr blaen:* Tŷ Pawb, Wrecsam (llun: James Morris)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Phenseiri Featherstone Young

# Pwy ydym ni...

Cyngor Celfyddydau Cymru yw corff ariannu swyddogol y wlad ar gyfer ariannu a datblygu'r celfyddydau.

Bob dydd, mae pobl ledled Cymru'n mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau: rydym ni'n helpu i gefnogi a thyfu'r gweithgaredd hwn. Gwnawn hynny drwy ddefnyddio arian cyhoeddus sydd ar gael i ni gan Lywodraeth Cymru a thrwy ddosbarthu'r arian a dderbyniwn fel achos da gan y Loteri Genedlaethol.

Drwy reoli a buddsoddi'r arian hwn mewn gweithgareddau creadigol, mae Cyngor y Celfyddydau'n cyfrannu at ansawdd bywyd pobl ac at lesiant diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Rydym ni'n gweithio i greu amgylchedd ble mae'n haws i'r celfyddydau ffynnu – amgylchedd sy'n:

- adnabod a meithrin doniau creadigol i'w llawn botensial, trwy Gymru benbaladr, gan gofleidio'n llwyr gydraddoldeb ac amrywiaeth
- cefnogi a dathlu dychymyg, arloesi ac uchelgais
- meithrin creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- galluogi artistiaid i ddatblygu gyrfa broffesiynol yng Nghymru, a sefydliadau i fanteisio ar farchnadoedd newydd ar gyfer eu gwaith
- ysbrydoli pobl ifanc i ddatblygu'u potensial creadigol
- cynnig ystod o brofiadau celfyddydol i gynulleidfaoedd allu'u mwynhau a chymryd rhan ynddynt
- darganfod lleoliadau a ffyrdd newydd y gall pobl gyfranogi yn y celfyddydau
- rhyngwladol o ran golygon ac uchelgeisiol dros lwyddiant rhyngwladol artistiaid Cymru
- cydnabod pwysigrwydd sylfaenol cynaliadwyedd

Edrychwch ar yr animeiddiad byr hwn sy'n esbonio pam Mae'r Celfyddydau'n Cyfri

www.celf.cymru

## Yn ystod y pum mlynedd o 2013 tan 2018...

Rydym ni wedi buddsoddi

£177m

o gyllid y Llywodraeth ac

£87m

gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi a datblygu'r celfyddydau ledled Cymru

Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan

19.5 miliwn

o bobl a chymerodd

4.3 miliwn

ran yn y digwyddiadau cyfranogol

Bu i ni fuddsoddi yng nghyflenwad y genedl o gyfleusterau celfyddydol, gan ddarparu cyllid cyfalaf, arian ar gyfer gwaith adeiladu, i dros

30

o brosiectau yng Nghymru

Bu i ni wneud

70

Dyfarniad Cymru Greadigol i artistiaid allu datblygu eu gwaith personol

Cyflwynodd y rhwydwaith o sefydliadau cenedlaethol sy'n derbyn arian Cyngor y Celfyddydau bob blwyddyn, ein Portffolio Celfyddydau Cymru (PCC)

104,390

digwyddiad a

331,508

digwyddiad cyfranogol

Fe wnaethon ni gefnogi

2,607

perfformiad Noson Allan, gan ddod â chelfyddydau o ansawdd uchel i gymunedau lleol

Fe wnaethon ni dderbyn a phrosesu

7,496

cais am nawdd

Fe wnaethon ni gynnig

5,168

benthyciad di-log drwy gyfrwng y Cynllun Casglu, gan fenthyca

£4.2m

i aelodau'r cyhoedd i'w cefnogi i brynu celf a chrefft gyfoes

1

## Bod yn feiddgar a chreadigol

Rydym ni'n cefnogi'r celfyddydau gorau a mwyaf cyffrous sydd gan Gymru i'w gynnig. Drwy greu amgylchedd ble gall y celfyddydau ffynnu, gallwn ni helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydau i greu'u gwaith gorau.

2

## Gweithio dros bawb

Rydym ni am i gynifer o bobl â phosib, fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Mewn Cymru deg a chyfartal, rydym ni'n credu y dylai'r celfyddydau fod ar gael yn hawdd ac yn hygyrch i bawb. Rydym ni'n benderfynol o hybu amrywiaeth ac o ddymchwel y rhwystrau sy'n atal hyn rhag digwydd ar hyn o bryd.

3

## Ennill ymddiriedaeth y cyhoedd

Fel corff cyhoeddus, rhaid i ni fod yn geidwaid effeithlon, ac yn atebol o ran dosbarthu arian cyhoeddus. Dydyn ni ddim yn ymddwyn yn ddiofal ag arian y cyhoedd. Ein nod yw ymddwyn yn onest, yn gywir ac yn deg. Rydym ni'n esbonio'n glir ac agored bob penderfyniad a wnawn, ac rydym ni'n sicrhau fod y buddsoddiadau cyllid a wnawn ni'n werth da am arian.

4

## Bod y gorau allwn ni

Wrth wraidd unrhyw sefydliad llwyddiannus ceir pobl angerddol sy'n cael eu hysgogi yn eu gwaith. Rydym ni'n parchu ac yn annog ein gilydd fel staff. Rydym ni'n wynebu pob dydd ag agwedd gadarnhaol a pharodrwydd i dyfu, dysgu a herio ein hunain. Rydym ni'n dysgu oddi wrth ein gilydd, a chan y rheiny rydym ni'n cydweithio â nhw. Drwy gydweithio, rydym ni'n gwireddu canlyniadau sy'n gwneud gwahaniaeth.

5

## Gweld yn well

Mae llawer o unigolion a sefydliadau'n rhannu ein gwerthoedd. Bydd Cymru'n lle gwell os gallwn gydweithio a chydweithredu, gan rannu'r hyn sydd orau am ein gwybodaeth a'n harbenigedd. Rydym ni'n ymwybodol o'n lle yn y byd, a'n cyfrifoldeb i'r blaned ac i genedlaethau'r dyfodol. Rydym ni'n gweithio mewn ffyrdd sy'n arddangos yr hyn sydd orau mewn datblygu cynaliadwy ac mewn atal niwed i'r dyfodol

6

## Bod yn falch o'r hyn a wnawn

Bob dydd, bydd pobl ledled Cymru'n gweld ac yn profi gwaith cyffrous ac eithriadol. Mae'r celfyddydau'n dod ag ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywyd beunyddiol. Maen nhw'n creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dod â phobl ynghyd, yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae'r celfyddydau'n cyfri. Byddwn ni'n cyfathrebu'n glir ac agored, gan adrodd straeon ein llwyddiant a llwyddiant y rhai a gefnogir gennym.



## Er budd pawb...

Mae 2018 yn flwyddyn fawr o gofio am yr anghenion a'r gobeithion sy'n ein clymu ynghyd fel cymdeithas. Rydym ni wedi bod yn dathlu pen blwydd y Gwasanaeth Iechyd yn 70 mlwydd oed; llwyddiant eithriadol Nye Bevan yn creu gwasanaeth rhad ac am ddim i bawb pan fo'i angen.

Ond rhaid i bob un ohonom sy'n ymwneud â'r lles cyffredin, â llesiant ein cyd-ddinasyddion, ofidio'n fawr am yr anghyfartaledd a'r eithrio cymdeithasol a welwn o'n cwmpas.

Mae Cyngor y Celfyddydau'n dal i fod yn ymrwymedig i ragoriaeth ac i gefnogi celfyddyd feiddgar, arloesol a heriol. Mae gennym gonsyrn am y llais unigol a mynegiant personol. Dyma rywbeth hanfodol a diffiniol. Ond mae cyrraedd ystod ehangach o'n cyd-ddinasyddion â grym trawsnewidiol y celfyddydau yr un mor bwysig. Rhaid i fynediad a rhagoriaeth o bob math fynd law yn llaw. Dyna ein her. Ac mae'n her sy'n ein cyffroi.

Ond yn ymarferol, mae hyn yn anos nag y mae'n swnio mewn egwyddor.

Erys y ffaith gignoeth fod gormod o bobl yn cael eu heithrio i bob pwrpas rhag y cyfle i fwynhau'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt neu weithio yn y maes. Mewn cymdeithas deg, ffyniannus, iach, fyddai hyn ddim yn gwneud y tro o gwbl. Os ydym ni'n credu fod profiadau dyrchafol y celfyddydau, profiadau mynegiant dychmygus, yn hanfodol i gymdeithas iach a deinamig, yna dylent fod ar gael i bawb.

Yn gynharach eleni, mewn cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau, buom yn siarad â phobl ledled Cymru yn ein Sgwrs Greadigol Cymru Gyfan. Mae'r hyn a glywsom yn y sgwrs honno wedi rhoi ffurf ar ein Cynllun Corfforaethol.

Dyma Gynllun sy'n seiliedig ar ddwy flaenoriaeth.

Y gyntaf yw datblygu gallu a photensial pobl sy'n gweithio ym myd y celfyddydau, helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydol i wneud eu gwaith gorau. Mae'n ymwneud â meithrin doniau a thyfu'r sgiliau sy'n galluogi gwireddu llwyddiant mewn byd cymhleth a chystadleuol. Os ydych chi'n awdur, yn gerddor, yn artist gweledol neu'n un o'n cwmnïau mwyaf, ein gwaith ni yw eich helpu i ffynnu ac i wneud eich gwaith yn fwy cynaliadwy.

Ond mae gennym ail flaenoriaeth, sydd yr un mor bwysig, os nad yn fwy felly.

Clywsom lawer yn ystod Sgyrsiau Creadigol Cymru Gyfan am y modd mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn adeiladu bywyd cymunedol a dinesig. Ar yr union adeg pan fo'r galw mwyaf amdano, ar yr union bryd pan welwn ddiffyg cyswllt gofidus rhwng pobl ar y stryd a'r sefydliadau sy'n rhoi siâp ar fywyd cyhoeddus, mae'r celfyddydau'n dangos y ffordd.

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, sefydliad sy'n eiddo i bob un ohonom, rydym ni'n benderfynol o wthio ymlaen er mwyn ehangu mynediad ar gyfer holl bobl Cymru. Ac fe

welwch chi'r natur benderfynol hon yn amlygu'i hun fwyfwy yn ein cynlluniau.

Rhaid i ni newid meddyliau a chalonnau ar draws y celfyddydau yng Nghymru er mwyn i'r manteision diwylliannol, moesol a chymdeithasol - sy'n dod yn sgîl cofleidio cydraddoldeb o ran cyfle - gael mwy o flaenoriaeth yn y ffyrdd yr ydym ni'n trefnu ein busnes.

Y tu hwnt i gwestiynau am gyfiawnder cymdeithasol, rydym ni, yn syml, yn gwastraffu doniau a chreadigrwydd, egnïon rhannu llawenydd a pheri newid, wrth i ni eithrio cynifer o weithlu'r celfyddydau oddi ar fyrddau rheoli ac oddi wrth brofiadau celfyddydol fel gwylwyr neu gyfranogwyr.

Rhaid i ni wneud pethau'n wahanol, ac mae'r gwahaniaeth hwnnw'n dechrau fan hyn.

Yn gynharach yn y flwyddyn, fe wnaethon ni ofyn i Gary Raymond, beirniad, golygydd, nofelydd a darlledwr, fynd â chrib fân dros y wlad, gan chwilio am unigolion oedd â stori bwysig i'w hadrodd neu brofiad pwysig i'w rannu. Dyma'r lleisiau sy'n canolbwyntio ein meddyliau a'n gweithredoedd ar faterion hanfodol cydraddoldeb mynediad, cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cymunedol.

Rydym ni'n clywed heriau ac uchelgeisiau gan artistiaid du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME); gan artistiaid anabl; gan bobl greadigol hŷn. Rydym ni'n clywed her yn cael ei chynnig i dra-arglwyddiaeth y dosbarth canol ar greu celfyddyd, ar fynychu ac ar gyfranogi yn y celfyddydau. Rydym ni'n clywed her yn cael ei chynnig i batriarchaeth a hen agweddau trefedigaethol. Rydym ni'n clywed datganiadau tanbaid o blaid credu yng ngwerth y celfyddydau mewn addysg, mewn grymuso cymunedau, mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â Chymru drefol neu ôl-ddiwydiannol. Ac rydym ni'n clywed fod cred ddiysgog fod gennym gyfleoedd enfawr fel cenedl fechan gyd-gysylltiedig sy'n meddu ar ddychymyg enfawr.

Mae nifer o'r bobl hyn wedi ymgysylltu â chyllid a rhaglenni Cyngor y Celfyddydau, ac â'r sefydliadau sy'n derbyn ein cefnogaeth. Ond yn sicr, dyma'r math o bobl yr ydym ni'n dymuno gwneud mwy i'w cefnogi. Ac mae'r negeseuon a glywir ganddynt yn cynnwys brys a dilysrwydd na allai'r un strategaeth fiwrocrataidd gystadlu â hi.

Ni fydd y dewisiadau anodd a'r anghytuno ynghylch ariannu'r celfyddydau'n diflannu. Ond mae ein Cynllun yn cynnig gweledigaeth dros y blynyddoedd i ddod. Gobeithio y bydd yn bywiocau ac yn egnïo pawb sy'n malio am y celfyddydau a'u lle wrth galon bywyd a llesiant Cymru – er budd pawb…



Phil George
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru



## Cryfder mewn amrywiaeth...

O'r dechrau un, mae amcanion deublyg wedi bod i ddefnyddio pwrs y wlad i ariannu'r celfyddydau, sef: ceisio ardderchowgrwydd, a hyrwyddo mynediad i alluogi mwy o bobl i fwynhau a manteisio ar y celfyddydau.Tan yn gymharol ddiweddar, y nod cyntaf gafodd ei ffafrio, ar draul yr olaf.

Mae nifer yn cysylltu unrhyw gyfeiriad at "y Celfyddydau" gyda gweithgaredd elitaidd sydd ar gyfer nifer bychan, nid y rhelyw. Rydym wedi gweithio'n galed i gael gwared ar y myth fod y gwerth a'r buddiannau y gall y celfyddydau eu cynnig yn gyfyngedig i leiafrif. Ond, dengys y dystiolaeth, er gwaethaf peth llwyddiant, nad ydym yn gwneud digon.

Dair blynedd yn ôl, tynnwyd sylw gan Gomisiwn Warwick at yr ystadegyn hollol annerbyniol mai'r 8% cyfoethocaf, â'r addysg orau a'r lleiaf amrywiol o ran hil mewn cymdeithas oedd yn cynrychioli bron hanner y gynulleidfa gerddoriaeth fyw a thua un o bob tri o fynychwyr theatrau ac orielau. Nododd hefyd fod tuedd am i lawr mewn lefelau cyfranogi yn y celfyddydau.

Ymddengys fod gormod o rwystrau o hyd sy'n atal mynediad i'r celfyddydau, boed y rheiny'n rhwystrau diwylliannol, cymdeithasol neu economaidd. Bydd dymchwel y rhwystrau hyn yn un o'n blaenoriaethau diffiniol dros oes y Cynllun hwn. Bydd yn gofyn am weithredu penodol – ymhob maes – os yw ein hagenda'n mynd i fod yn gredadwy. Ond rydym ni'n benderfynol y dylai hyn fod yn ymwneud llai â chydymffurfio, a mwy am yr egwyddorion creadigol a moesol sy'n sail i'n holl waith.

Os yw'r celfyddydau yng Nghymru'n mynd i fanteisio ar y cyfleoedd hyn, bydd angen arweiniad cryf, mentrus, arnynt. Mae hyn yn golygu adeiladu sector sy'n llawn dychymyg, sy'n arloesol ac sy'n gallu gwneud yn fawr o'i buddsoddiadau cyhoeddus. Mae gwreiddiau sefydliad gwydn wedi'u plannu'n ddwfn yn y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, mae'n canolbwyntio ar ei chynulleidfa ac yn mabwysiadu model busnes sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau, boed y rheiny'n rhai a gynlluniwyd neu'n rhai annisgwyl. Mae sefydliad gwydn yn un sy'n meddu ar y sgiliau, y capasiti a'r adnoddau i oroesi yn y tymor hirach.

Felly beth yw ystyr hyn yn ymarferol? Beth fyddwn ni'n ei wneud, a beth fydd yn gorfod newid?

Byddwn ni'n parhau i ddathlu rhagoriaeth ac i annog y gorau yn y byd celfyddydol yng Nghymru. A byddwn ni'n gwneud hyn drwy:

- ddarparu pecynnau cyllido a chefnogaeth i annog gwytnwch a hirhoedledd artistiaid a sefydliadau celfyddydol
- gynyddu ein buddsoddiad yng ngwaith creadigol artistiaid du a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

- ymgyrchu o blaid mwy o amrywiaeth ymysg gweithlu'r celfyddydau ac wrth lywodraethu'i bortffolio o sefydliadau sy'n derbyn cyllid refeniw

- sicrhau fod Cyngor y Celfyddydau'n cynnal gwerthoedd tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd

- gwneud yn fawr o gyfleoedd i weithio'n rhyngwladol

- ymestyn ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc, gan sicrhau gwaddol i'n rhaglen 'Dysgu Creadigol'

- datblygu strategaeth Celfyddydau ac Iechyd newydd

Bob blwyddyn byddwn ni'n cyhoeddi ein Cynlluniau Gweithredu, gan esbonio beth wnaethon ni yn y flwyddyn flaenorol a bwrw golwg ar yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn bwrw golwg ymhellach - o 2018 tan 2023. Mae'n trafod newid, egni newydd a pharodrwydd i dorri ar yr hen ffyrdd arferol o weithio pan fo galw am hynny. Dangoswyd i ni yn ystod y sgyrsiau a gawsom ynghynt yn y flwyddyn fod archwaeth yng Nghymru benbaladr i weld artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau'n gweithio gyda ni, er mwyn adeiladu sector gelfyddydol fwy gwydn ac amrywiol. Croesawn hynny - a bydd y celfyddydau'n gryfach o'r herwydd.




Nick Capaldi
Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru

Ein Cenhadaeth

# Gwneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl

## Ein strategaeth




## Ein blaenoriaethau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'i hun i ddwy flaenoriaeth:

**1**

Hybu Cydraddoldebau fel sylfaen i ymrwymiad clir i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru

**2**

Cryfhau Gallu a Gwytnwch y celfyddydau, gan alluogi doniau creadigol i ffynnu

Mae'r Cyngor hefyd wedi adnabod gweithred a fydd yn gallu cefnogi cyflawni'r ddwy flaenoriaeth hon:

**3**

Galluogi i Gyngor y Celfyddydau weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithio'n fwy dychmygus â phartneriaid o'r un feddwl ledled Cymru

# Mesur ein cynnydd – pum ymrwymiad

Mae gennym uchelgeisiau mawrion ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Rydym ni eisiau cefnogi'r celfyddydau gorau y gallwn. Ac rydym ni eisiau i ragor o bobl o bob math o gefndir deimlo fod y celfyddydau'n gallu bod yn rhan ystyrlon o'u bywydau, boed hynny fel cynulleidfa, cyfranogwr neu artist.

Nid yw datblygu'r celfyddydau'n cynnig ei hun yn hawdd i dargedau a rhifau. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod ni'n gallu esbonio effaith ein gwaith a dangos ein bod ni'n gwneud cynnydd tuag at fodloni ein hamcanion.

Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl, mae amrywiaeth o gynlluniau a strategaethau mwy manwl yn llywio ein gwaith. Serch hynny, rydym ni wedi adnabod pum ymrwymiad a fydd yn darparu sail i'n galluogi i fesur ein cynnydd yn gynt ac yn fwy uniongyrchol.

(Mae ein hystadegau'n defnyddio 2016/17 fel sail).

| Ein hymrwymiadau | Ble ydym ni nawr? | Ble hoffen ni fod erbyn 2023? |
|---|---|---|
| 1 Byddwn ni'n defnyddio ein cyllid cyhoeddus i gynyddu'r nifer o bobl sy'n mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt. | Buddsoddir y rhan fwyaf o'n cyllid yn ein rhwydwaith Cenedlaethol o 67 sefydliad a ariennir yn flynyddol – ein Portffolio Celfyddydau Cymru (PCC). Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae gweithgarwch y Portffolio wedi llwyddo i gael rhwng 3.8 a 4.2 miliwn o bobl i fynychu, ac i gael cyfranogiad ychydig dros 1 miliwn.<br><br>Ein prif ffynhonnell arian arall yw ein rhaglenni Loteri. Oherwydd y nifer fawr o unigolion a sefydliadau a gefnogwyd gennym, nid ydym wedi bod yn hyderus yn y gorffennol ynghylch cywirdeb y data a oedd gennym yng nghyswllt mynychu a chyfranogi. Rydym ni'n bwriadu mynd i'r afael â hyn. Serch hynny, gwyddom fod gwaith o ansawdd da yn y Gymraeg yn annigonol, yn enwedig ym maes theatr. | • Gan ddefnyddio'r ffigwr uwch ar gyfer Mynychu PCC, rydym ni eisiau cyflawni rhif targed o 4.5 miliwn<br><br>• Rydym ni eisiau cyrraedd lefel o gymryd rhan mewn gweithgareddau PCC o 1.2 miliwn<br><br>• Rydym ni eisiau, erbyn 2020, sefydlu data sy'n ddibynadwy'n ystadegol ar gyfer rhaglenni Loteri, gyda chynnydd mewn mynychu a chyfranogi erbyn 2023<br><br>• Rydym eisiau gwyrdroi'r cwymp diweddar a fu mewn cynulleidfaoedd ar gyfer theatr yn Gymraeg, a chyflawni cynnydd o ddeg pwynt canran |

| Ein hymrwymiadau | Ble ydym ni nawr? | Ble hoffen ni fod erbyn 2023? |
|---|---|---|
| 2 Byddwn ni'n galluogi niferoedd mwy o bobl, ac amrywiaeth ehangach ohonynt, i fwynhau, cymryd rhan mewn a gweithio ym maes celf a ariennir yn gyhoeddus. | Dengys ein hymchwil nad yw presenoldeb pobl â nodweddion a warchodir yn y boblogaeth gyfan yn cyfateb â'r canrannau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a ariennir gennym. Rydym ni eisiau cyrraedd at y trawstoriad ehangaf o bobl, boed y rheiny'n siaradwyr Cymraeg, o grŵp â nodweddion a warchodir, neu'n bobl sy'n profi canlyniadau anfanteision economaidd neu gymdeithasol.<br><br>Mae'n bryder i ni y gallai'r celfyddydau fod yn gynyddol agored i'r rhai mwyaf cyfoethog yn unig. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r bwlch o ran Mynychu a Chyfranogi rhwng y mwyaf cyfoethog a'r tlotaf wedi aros yn ei unfan yn ystyfnig; mae Cyfranogi wedi aros yn llonydd o gwmpas 6 phwynt canran, a Mynychu'n lledu o ryw 7 pwynt canran i 11 pwynt canran.<br><br>Mae bylchau demograffig yn arbennig o drawiadol o edrych ar y niferoedd isel iawn o bobl anabl a phobl o gefndiroedd BAME a gyflogir yn y celfyddydau neu sy'n cael eu cynrychioli ar fyrddau rheoli.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond 102 o bobl anabl sy'n gweithio yn ein 67 PCC (2% o'r gweithlu), tra bo'r ffigwr cyfatebol ar gyfer pobl o gefndir BAME yn 159 (3% o'r gweithlu).<br><br>Mae'r ffigurau ar gyfer aelodaeth ar fyrddau rheoli yr un mor siomedig. O blith 700 o aelodau byrddau, mae 17 yn bobl anabl, a 12 o gymuned BAME. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn fwy calonogol – 222 ohonynt. | • Byddwn ni'n gallu dangos yn glir fod ein holl raglenni ariannu'n hybu ac yn cyfrannu at gydraddoldeb ac amrywiaeth<br><br>• Bydd y bwlch rhwng y rheiny yn y sectorau cymdeithasol mwyaf a lleiaf ffyniannus fel cynulleidfaoedd a chyfranogwyr wedi culhau<br><br>• Byddwn ni'n datblygu gwaith creadigol artistiaid anabl drwy ariannu comisiynau 'Diderfyn' a datblygu cynllun tebyg i un Arts Council England - 'Ramps on the Moon'<br><br>• Rydym ni eisiau cyflwyno cynllun 'Ysgogyddion Newid' a fydd yn rhoi pobl BAME ac anabl mewn swyddi gweithredol uwch yn y celfyddydau<br><br>• Rydym ni eisiau dyblu'r niferoedd o bobl anabl sydd yng ngweithlu'r celfyddydau<br><br>• Rydym ni eisiau gweld dyblu'r nifer o bobl Ddu ac o gefndir lleiafrifol ethnig yng ngweithlu'r celfyddydau<br><br>• Rydym ni eisiau cyflwyno cynllun Prentisiaeth Cyngor y Celfyddydau, i roi cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol<br><br>• Byddwn ni wedi cyflawni ein nod o dreblu'r nifer o bobl BAME ac anabl ar fyrddau llywodraethu PCC |

| Ein hymrwymiadau | Ble ydym ni nawr? | Ble hoffen ni fod erbyn 2023? |
|---|---|---|
| 3 Byddwn ni'n meithrin ac yn datblygu doniau creadigol, gan godi safon y celfyddydau yng Nghymru, gan alluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol i fod yn fwy gwydn. | Mae llwyddiant ac ansawdd y celfyddydau'n dibynnu ar weledigaeth a chreadigrwydd ein hartistiaid a'r gwerth a rown ni arnyn nhw. Byddan nhw'n bartneriaid hanfodol i ni wrth i ni gyflawni'r uchelgeisiau a a mlinellir yn y Cynllun hwn.<br><br>Mae datblygu dawn greadigol yn dechrau'n ifanc iawn. Ac er bod gennym ddiddordeb mewn datblygu creadigrwydd <u>pob</u> person ifanc, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cefnogi datblygiad y rheiny sy'n dangos dawn ac addewid arbennig ac i ac i wrthsefyll rhwystrau a all ddigwydd ar gyfer datblygu talentau trwy'r gymdeithas.<br><br>Boed hynny drwy weithio'n unigol neu gyda'n gilydd, yn lleol neu'n rhyngwladol, ein nod yw creu'r amgylchiadau ble gall ein hartistiaid ddilyn gyrfaoedd dichonadwy, cynaliadwy yn seiliedig yng Nghymru.<br><br>Mae bod yn wydn, a lleihau dibyniaeth ar arian cyhoeddus, yn her allweddol i'n PCC. Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae incwm a enillwyd fel cyfran o'r holl incwm wedi cynyddu 6 phwynt canran i 47% yn 2017. Ein cred ni yw bod cynnydd rhesymol pellach yn bosib.<br><br>Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd ddwy flynedd yn ôl (gan Fieldworks) i yrfaoedd artistiaid, cyflwynwyd darlun o sector greadigol ddiwyd ac ymrwymedig. Ond mae artistiaid yn cael trafferth i gael eu cydnabod yn iawn, ac roedd incwm cyfartalog pobl a enillwyd drwy eu gwaith creadigol yn unig yn llai na £21,000 yn 2017. | • Rydym ni eisiau gweld enillion cyfartalog i artistiaid unigol yn cynyddu 10% mewn termau go iawn<br><br>• Rydym ni eisiau gweld effaith ein rhaglen 'Gwytnwch', gyda Phortffolio Celfyddydau Cymru'n gallu dangos cynnydd mewn incwm a enillwyd fe cyfran o drosiant o 5%<br><br>• Bydd gan artistiaid Cymru lais rhyngwladol mewn 12 digwyddiad arddangosfa ryngwladol neu ffeiriau masnach<br><br>• Bydd ein partneriaeth Cymru:China wedi tyfu i'r graddau fod hyd at 10 cwmni bob blwyddyn yn gallu gweithio yn China<br><br>• Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill i ganfod modd addas o sicrhau cyllid ar gyfer cydweithio Ewropeaidd yn y celfyddydau ar ôl Brexit |

| Ein hymrwymiadau | Ble ydym ni wrthi nawr? | Ble hoffen ni fod erbyn 2023? |
|---|---|---|
| 4 Byddwn ni'n datblygu ffyrdd gwell o asesu ansawdd a gwerth am arian y gweithgareddau rydym ni'n buddsoddi ynddynt, a'n cynnydd o ran cyflawni ein nodau. | Mae ansawdd yn bwysig, ac mae gan drethdalwyr hawl i ddisgwyl y gorau am eu buddsoddiad. Bydd cefnogi gwaith rhagorol, mewn amrywiaeth o leoliadau a chyd-destunau ledled Cymru, yn flaenoriaeth barhaus.<br><br>Bydd ein rhaglenni ymchwil ac asesu'n darparu gwybodaeth i ni ac i'r sefydliadau a ariennir gennym ar ansawdd y gwaith yr ydym ni'n buddsoddi ynddo. Bydd hyn yn cynnwys hunanasesiadau sefydliadau, adolygiadau beirniadol annibynnol, a barn broffesiynol ein Cyngor, Staff ac Ymgynghorwyr Cenedlaethol.<br><br>Rydym ni'n sefydlu prosesau newydd ar gyfer gwerthuso ansawdd. Wrth wraidd hyn y bydd datblygu a threialu set genedlaethol o fesurau ansawdd, a gyd-awdurwyd gan y sector a'u cynllunio i roi gwell data i ni am y modd y mae sefydliadau, eu cymheiriaid a'r cyhoedd yn gweld ansawdd y gwaith rydym ni'n buddsoddi ynddo.<br><br>Ond mae angen i ni hefyd ddeall faint o gynnydd rydym ni'n ei wneud o ran cyrraedd ein nodau strategol. Rydym ni wedi amlinellu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, a rhaid i ni ddisgwyl cael ein herio o ran y graddau yr ydym ni'n cyflawni newid go iawn. | • Rydym ni wedi recriwtio a hyfforddi criw newydd o Ymgynghorwyr Cenedlaethol ac unigolion â sgiliau arbenigol a chysylltiadau a fydd yn gallu helpu Cyngor y Celfyddydau i gyrraedd ymhellach<br><br>• Byddwn ni wedi bod yn gweithio gyda'r sector gelfyddydol i annog dull mwy cydweithredol o asesu ansawdd gweithgarwch a ariennir gennym, yn seiliedig ar ryw fath o werthuso cymheiriaid<br><br>• Bydd ymchwil beilot wedi cael ei gwblhau er mwyn datblygu prosesau i annog y cyhoedd i roi adborth ar ansawdd y celfyddydau y maen nhw'n eu mynychu neu'n cyfranogi ynddynt |

| Ein hymrwymiadau | Ble ydym ni wrthi nawr? | Ble hoffen ni fod erbyn 2023? |
|---|---|---|
| 5 Byddwn ni'n adlewyrchu blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru yn ein rhaglenni gwaith. | Mae Cyngor y Celfyddydau'n gweithredu o dan arfer hen-sefydledig 'egwyddor hyd braich'. Ond fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n hollol resymol ein bod ni'n gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu rhaglen waith sy'n cwrdd â blaenoriaethau'r cyhoedd yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y Llywodraeth yn allweddol yn hyn o beth, gan ddarparu fframwaith ar gyfer y sector gyhoeddus yng Nghymru.<br><br>Amlinellir yr hyn a ddisgwylir gennym gan Lywodraeth Cymru mewn Llythyr Cylch Gwaith. Mae'r llythyr hwn yn gosod y cyd-destun ar gyfer ein gwaith bob blwyddyn, gan gynnwys meysydd partneriaeth allweddol ble byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth.<br><br>Er bod y celfyddydau a diwylliant yn faterion a ddatganolwyd i Lywodraeth Cymru, rydym ni'n dilyn â diddordeb unrhyw fentrau perthnasol sy'n digwydd yng ngweddill y DU. Byddwn felly'n cefnogi mentrau newydd Llywodraeth y DU yn y maes hwn, gan gynnwys gwaith Hyrwyddwyr Celfyddydau Anabl yr Adran Waith a Phensiynau. | • Byddwn ni'n adrodd yn hyderus am ein llwyddiannau yn erbyn y saith nod a amlinellir yn y ddeddfwriaeth lesiant<br><br>• Byddwn ni'n ymwneud â phrosiectau cydweithredol â chyrff sector gyhoeddus eraill a gynlluniwyd i gyflawni'r nodau llesiant hynny<br><br>• Bydd rhaglen dreftadaeth wedi'i sefydlu ar ôl cwblhau strategaeth bum mlynedd, Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau<br><br>• Byddwn ni'n rhoi cynllun gweithredu ar gyfer Celfyddydau ac Iechyd ar waith, yn seiliedig ar ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chonffederasiwn GIG Cymru<br><br>• Byddwn ni wedi cytuo ar dair strategaeth gyfun gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer:<br>i. Gweithio rhyngwladol<br>ii. Diwydiannau creadigol<br>iii. Twristiaeth |



**Gary Raymond**,
beirniad, golygydd, nofelydd a darlledwr.

Mae ‘Er Budd Pawb’ yn nodi trobwynt pwysig. Mae’n adlewyrchu ein cred y bydd Cymru yn gryfach yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol os yw rhagor o bobl yn mwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae pobl yn profi’r celfyddydau mewn ffyrdd gwahanol. Rydym am ddathlu amrywiaeth a chyfoeth eu diwylliant, eu huchelgais a’u dychymyg creadigol. Mewn geiriau eraill, hoffem ehangu ein ffyrdd o weithio a’r math o bobl y gweithiwn gyda hwy.

Comisiynasom Gary Raymond i chwilio am unigolion o bob cwr o Gymru sy’n ein hysbrydoli a phobl  y mae eu profiadau celfyddydol yn llai cyfarwydd inni. Ac mae pob un ohonynt yn wahanol a rhai ohonynt yn wahanol y tu hwnt. Ond dengys pob un angerdd am y celfyddydau a phenderfyniad diwyro i godi eu llais. A dyma’r angerdd a’r penderfyniad yr ydym am eu dathlu.

“Dros gyfnod o rai misoedd, fe wnes i siarad ag ystod eang o bobl o bwll demograffig amrywiol, a phob un wedi cael y fraint o roi creadigrwydd wrth galon eu bywydau. Roedd ein trafodaethau’n ddilyffethair hollol. O’r personol i’r byd-eang, o’r seicolegol i’r gwleidyddol ond digwyddodd pob un ar seiliau a luniwyd ar danbeidrwydd, gwirionedd a gobaith. Yn gyson, deuai’r sgyrsiau’n ôl at rym trawsnewidiol celf, at y rôl hanfodol y mae’n rhaid i gelfyddyd ei chwarae yng nghyfoeth ac iechyd cenedl, a sut y mae’n rhaid i’r dyfodol ymwneud ag amrywiaeth, mynediad a chreu meddwl agored o ran ffurf a chyfrwng, a sut y gall creadigrwydd ymffurfio’n ddiddiwedd a chael canlyniadau di-ben-draw. Nodweddwyd y sgyrsiau gan feiddgarwch, gwroldeb, angerdd, ac uwchlaw popeth arall, egni ffyrnig. Dyma olwg ar dirwedd greadigol Cymru fel y mae, ac fel y gallai fod.”



Mae **Taylor Edmonds**, 23,
yn awdur a pherfformiwr sy'n byw yng Nghaerdydd.

Ro'n i'n ddigon breintiedig i fod yr aelod cyntaf o fy nheulu i fynd i brifysgol, ac er bod gen i rieni cefnogol oedd yn deall, law yn llaw â'r fraint honno, daeth pwysau i lwyddo. Ar ôl dod adre wedi graddio, doedd fy 'llais', a fu unwaith yn llawn hyder ac yn esblygu'n barhaus, ddim yn teimlo llawer fel llais mwyach.

Gall y byd celf deimlo'n wyn yn aml, yn wrywaidd, ac yn llwyr ddosbarth canol; doedd y fan honno ddim yn teimlo fel y man iawn ar gyfer fy ngwaith. Ro'n i'n gwybod bod gen i rywbeth i'w ddweud; yr unig beth oedd nad o'n i'n siŵr iawn ble i'w ddweud e.

Er mwyn canfod fy lle, fe wnes i ddechrau ymchwilio i ddigwyddiadau llenyddol yng Nghymru, dilyn pobl a sefydliadau ar Twitter a oedd yn gwneud i mi deimlo mod i yng nghorlan pobl greadigol Cymru. Ro'n i'n chwilio am le diogel, cynhwysol ac amrywiol ble gallwn rannu fy ngwaith a chael fy ysbrydoli gan bobl eraill. Yr ateb i hyn oedd *Where I'm Coming From*, cyfres o ddigwyddiadau llafar yng Nghaerdydd sydd â'r nod o hybu awduron BAME yng Nghymru, lle o fewn cymuned gelfyddydol na fyddem ni fel arall yn teimlo ein bod yn cael ein cynrychioli'n ddigonol.

Fe es i i fy nghyfarfod cyntaf o WICF yn swil a dihyder, gyda cherdd nad o'n i erioed wedi'i darllen ar lafar o'r blaen, am brofiad fy mam fel menyw ddu – cerdd y byddwn wedi bod yn amheus o'i rhannu mewn mannau eraill. Ro'n i'n crynu wrth ddarllen, fe wnes i faglu dros fy ngeiriau, ond roedd hi'n teimlo'n iawn dweud stori fy mam yn fan'no. Gwrandawodd y gynulleidfa'n astud, roedden nhw'n gynnes ac anogol. Wedyn, fe ddywedodd un o'r gwrandawyr ei bod hi wedi cael ei chyffwrdd gan fy ngherdd; dywedodd fod profiadau fy mam yn debyg i'w phlentyndod hi a'r ffordd y bu'n ymgodymu â dod i delerau â'i hunaniaeth o ran hil.

Fy hoff ddarn yn y digwyddiadau hyn yw gwylio sut mae natur y gynulleidfa'n annog pobl i ddatgelu pethau amdanyn nhw'u hunain. Fel perfformiwr, rwy'n dwlu ar y teimlad o rannu'r fath agosatrwydd gyda dieithriaid. Rywsut, mae'n teimlo'n naturiol i sefyll y tu ôl i feicroffon ac agor eich calon, a rhannu darn ohonoch eich hun. Wedyn, rydych chi'n parhau i fân siarad gyda'r bobl o'ch cwmpas fel pe bai dim byd rhyfeddol wedi digwydd. Uwchlaw popeth arall, rwy'n teimlo fod creu celfyddyd yn beth bregus, cywrain, ac mae'n haeddu cael ei drin felly.

**Ro'n i'n gwybod bod gen i rywbeth i'w ddweud; yr unig beth oedd nad o'n i'n siŵr iawn ble i'w ddweud e.**

Llun: Olivia Campbell



Mae **Mandy Lane**, 38,
yn artist a darlithydd sydd yn byw yng Nghaerfyrddin.

## Drwy arddangos y gweithiau hyn, rydym wedi creu deialog rhwng yr artist a'r gwyliwr, ond hefyd rhwng ein straeon ni a straeon y menywod rheini.

Cafodd fy chwaer a minnau ein magu yng ngofal yr awdurdod lleol. Rydw i wedi meddwl yn hir am y tlodi a'r caledi y gwnaethom ei wynebu, ac yn enwedig ystyr bod yn fenyw dlawd. Dywedodd fy nhad alcoholig wrtha i unwaith, 'Diolch byth dy fod ti'n bert, o leia' galli di briodi neu fynd yn fodel Tudalen 3" Mae fy mhrosiect mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn, sy'n tynnu ar fywyd a gwaith Amy Dillwyn, wedi mynd â fi'n ôl i archwilio fy stori fy hun.

Mae'n ymddangos fod y menywod yn fy mywyd yn symbolau o'r fframwaith rhywedd diwylliannol annheg, a'r dynion yn symbolau o reolaeth a chasineb at fenywod oedd yn bwrw cysgod dros bopeth. Er bod llawer o dystiolaeth ar gael fod pethau'n newid a bod rhywedd yn dod yn beth mwy hyblyg a chydraddoldeb yn dod yn amlycach, mae llawer o anfanteision a rhwystrau sefydliadol i gydraddoldeb yn dal i fod mor gryf ag erioed. Cefais fy nghymell i daflu golau ar straeon cudd, i dynnu sylw at feysydd ble mae newid yn digwydd, ond hefyd yr ardaloedd hynny ble nad oes dim wedi newid.

Cefais fy ngrymuso'n fawr drwy ddysgu am straeon menywod oedd yn byw yn y Cymoedd fwy na 60 mlynedd cyn i fy stori innau ddechrau, yn goroesi caledi, trais yn y cartref, prinder bwyd, cam-drin alcohol, cwtogi eu haddysg, a diffyg cyfleoedd. Ac roeddwn i eisiau rhannu'r grym hwnnw.

Mae cyfathrebu hanes merched yn bwysig. Drwy arddangos y gweithiau hyn, rydym wedi creu deialog rhwng yr artist a'r gwyliwr, ond hefyd rhwng ein straeon ni a straeon y menywod rheini. Doedd amser ddim yn bodoli, dim ond grym y straeon a adroddwyd.

Archwiliad yr artist sy'n agor y sgyrsiau hyn. Mae artistiaid yn bobl chwilfrydig, ac maen nhw'n cyflawni gwasanaeth yn hynny o beth. Fe wnes i roi sgwrs yn Abertawe am Amy Dillwyn gerbron llond ystafell o bobl oedd yn disgwyl clywed darlith am ei llwyddiannau anhygoel ym myd diwydiant. Ond fe wnes i siarad am ei chariad a'i serch at Olive Talbot, y rhyferthwy y bu' rhaid iddi wynebu wrth gael ei gorfodi i gydymffurfio â threfn arferol cymdeithas, a'i hiachawdwriaeth derfynol rhag hyn oll. Mae angen adrodd straeon menywod y tu allan i fframwaith rheolaeth batriarchaidd. A chelfyddyd a chreadigrwydd sy'n gallu ein rhyddhau.

llun: © artist



Mae **Tiernan Miles**, 28,
yn gynllunydd a chrëwr technoleg sydd yn byw yn Llundain, ac ef yw prif weithredwr a chyd-sylfaenydd y fenter fydeang, Hello Lamppost.

Wrth fwrw golwg dros y cyfan, does dim ots ar ba sector yr edrychwch chi, boed addysg, neu gyllid neu beth bynnag, mae creadigrwydd yn y pen draw'n gyfwerth ag arloesi, ac mae arloesi'n fanteisiol i bawb. Ar lefel fanach fyth, gan ddefnyddio esiampl byw mewn dinas pan fydd creadigrwydd uwch, ac felly arloesi, yn dechrau gafael, mae'n dod â chyfres o fanteision eraill yn ei sgil. Gall technoleg, er enghraifft, annog pobl i newid eu hymddygiad. Os ydych chi'n rhannu straeon ac yn rhannu profiadau, yna mae pobl yn mynd i fod yn fwy cymdeithasol, maen nhw'n derbyn cydymdeimlad heb orfod bod yn agos at ei gilydd. Cynlluniwyd ein dinasoedd i fod yn ymarferol, nid yn gymdeithasol. Edrychwch ar bobl ar y trên tanddaearol yn Llundain, ac mae gyda chi'r holl bobl yma, ac eto, yn gyffredinol mae pobl yn casáu'r profiad. Pam? Pam nad yw pobl yn cael eu hannog i'w fwynhau, ac i elwa mwy ohono na dim ond er mwyn mynd o un lle i'r llall?

**Rydym ni ar groesffordd ar hyn o bryd ym maes cynllunio trefol yn benodol, ble mae mwy a mwy o bobl yn dechrau sylweddoli fod dinasoedd wedi cael eu creu gan ac ar gyfer yr 1% – prin iawn yw'r ystyriaeth a roddwyd i'r bobl sy'n defnyddio'r ddinas honno yn y broses gynllunio.**

Po fwyaf o ddylanwad creadigol y gellir ei gael ar gynllunio dinasoedd, yna mwya'n y byd y byddan nhw'n cael eu creu ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio.

Y man ble mae celf wedi'i leoli yn y byd, yn y pen draw, dyna gonglfaen creadigrwydd. Does dim pendraw amlwg ar gyfer celf, dim copa, dim nenfwd – mae hyn yn galluogi pobl i feddwl y tu allan i'r blwch yn barhaus ac, o ganlyniad, i arloesi. Mae dechrau prosiectau creadigol newydd drwy ganolbwyntio ar y 'defnyddiwr olaf' yn fudiad sy'n tyfu, a gall y broses hon helpu unrhyw agwedd ar unrhyw ddiwydiant. Dylai 'prosiectau celf', boed yn baentiad neu'n osodiad digidol, gael eu creu er budd profiad y defnyddiwr olaf.

Mae yna fath arbennig o ddemograffig sy'n cael eu stereoteipio fel 'y bobl y mae celf ar eu cyfer'. Ar hyn o bryd ystyrir fod artistiaid a'r cyhoedd / sefydliadau preifat yn ddau fyd ar wahân. Rydw i'n meddwl y bydd hynny'n wahanol ymhen 10 mlynedd. Yn y dyfodol, bydd gan bob tîm sector gyhoeddus, pob cornel o ddiwydiant, rywun 'creadigol', a does dim ots a ydych chi eisiau'u galw nhw'n artistiaid ai peidio. Yr union beth sydd ei angen ar y byd yw rhoi rhyddid iddyn nhw i greu cysyniadau a syniadau, er mwyn parhau i wella.

llun: @panstudio



Mae **Rabab Ghazoul**, 49,
yn artist ac ymgyrchydd a anwyd yn Irac sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd.

## Mae'r ffaith fod Cymru hefyd wedi bod o dan sawdl y gorchfygwr trefedigaethol, ac eto, ei bod hi wedi elwa ar gorn y prosiect trefedigaethol ehangach, yn ei rhoi mewn safle mor rymus ar gyfer peri newid.

Y peth sydd ar goll yn aml iawn yw gonestrwydd am y ffaith fod Cymru wedi elwa o'r prosiect trefedigaethol Ewropeaidd ehangach. Rhaid i ni ddeall ein hanes, a chymryd cam yn ôl ac ymwrthod â'r ddadl ddu a gwyn am Cymraeg-Saesneg / Cymru-Lloegr wrth ddadlau'n gyhoeddus. Rhaid i ni ddadelfennu ac ailfeddwl y syniadau ynghylch ystyr 'trefedigaethol', am ei fod llawer yn fwy cymhleth na'r ffordd rydym ni'n ei ddadansoddi ar hyn o bryd.

Ceir paentiad yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd; *portread o Catrina Hooghsaet gan Rembrandt*, a'r unig reswm y mae yno yw am fod teulu Pennant o Gastell Penrhyn, wedi dod â'r llun i Gymru yn y 1860au, wedi ennill eu cyfoeth enfawr ar gorn y fasnach gaethweision ar draws Môr yr Iwerydd. Ac eto, mae'r Amgueddfa'n disgrifio'r darlun fel cynnyrch 'oes aur ddiwydiannol' Cymru. Ond mae'r pethau hyn yn rhan go iawn o hanes Cymru. Ac rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n gweld sut mae'r straeon hyn yn adleisio pethau cyfatebol yn straeon gwledydd eraill.

Mae digonedd o enghreifftiau ar gael o lygad rhyngwladol Cymru, ac mae hynny'n beth da, ond y gwir yw bod rhai o'r cysylltiadau hyn yn rhai lletchwith ac anonest. Sut ydych chi'n ystyried yr etifeddiaeth ymerodraethol a arweiniodd at y drafodaeth ddiwylliannol honno? Mae'r man ble ceir tyndra o ran grym yn gallu amrywio, ac mae braint yn gallu amlygu'i hun mewn sawl lle gwahanol, ac yn fy marn i, mae llawer o drafod diwylliannol yn aml yn dileu neu'n lleihau cydnabod fod tyndra grym rhwng systemau diwylliannol Ewropeaidd a systemau diwylliannol y tu hwnt i Ewrop. Maen nhw'n anwybyddu'r ffaith fod effaith Ewrop ar y systemau diwylliannol anewropeaidd hynny'n rhywbeth go iawn. I mi, mae Cymru gref yn Gymru sy'n ymwneud yn llwyr yn hynny oll.

Mae'r ffaith fod Cymru hefyd wedi bod o dan sawdl y gorchfygwr trefedigaethol, ac eto, ei bod hi wedi elwa ar gorn y prosiect trefedigaethol ehangach, yn ei rhoi mewn safle mor rymus ar gyfer peri newid, am fod gennym ni'r ddau brofiad, yn llythrennol. Mae'n golygu fod gan Gymru empathi enfawr, a chyfrifoldeb enfawr.

Y gwledydd sy'n mynd i arddangos newid sylfaenol fydd y cenhedloedd bychain, am y bydd modd iddyn nhw ei arddangos wrth raddfa – mae modd i ni wneud pethau yng Nghymru a fyddai'n cymryd degawdau yn Lloegr am fod cymaint mwy o haenau o graig sefydliadol i'w symud o'r neilltu yno.

Llun: Mathias Depardon/Ruya Foundation


Everything I say becomes

Mae **Nicky Arscott**, 35,
yn artist a bardd sydd yn byw yn Llanbrynmair yn y Canolbarth.

## Yn fy marn i, fe ddylem ni feithrin anghydweld ymysg y plant bach, cyn eu hanfon allan i'r byd i fytheirio yn ein herbyn.

Sut mae cefnogi'r anghytuno hwn? Po fwyaf o bobl sy'n anghydweld, gorau oll. Rhaid i anghydweld ymwneud ag ymgysylltu, â chynhwysiant, a rhaid iddo fod yn flaengar. Mae angen ei weld, mae angen llwyfan iddi, ond mae angen diwylliant arno hefyd, ac mae heriau creu a chynnal diwylliant o'r fath yn wahanol iawn yng nghefn gwlad Cymru i ddinas ble mae'n fwy tebygol y cewch chi gymuned o artistiaid syn cefnogi a deall ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o gelf yn yr ardaloedd gwledig hyn naill ai'n dirluniau hyfryd ar gyfer yr ymwelwyr, neu mae'n deillio o arian gan Gyngor y Celfyddydau (meddyliwch am orielau fel MOMA, Oriel Davies, ambell berfformiad a ariennir gan CCC).

Does gan y rhan fwyaf, fawr o ddiddordeb mewn celf gyfoes o Gymru sy'n trin ymgyrchu gwleidyddol yng nghefn gwlad. Ceir ychydig mwy o ddiddordeb mewn gwaith sy'n defnyddio materion ieithyddol yn wleidyddol, ond y gwir yw bod orielau yn hapus i ddangos gwaith 'gwleidyddol' dim ond os cafodd ei greu hanner canrif yn ôl, neu yn waith o le arall. Does dim math o agwedd i fentro yn y lleoedd hyn am y tro. Mae hyn yn rhwystredig iawn o ran cael llwyfan, wrth gwrs, ac mae wedi fy ngwneud i'n ddibynnol iawn ar y rhyngrwyd - Facebook yn enwedig - pan ddaw hi'n fater o rannu'r math hwn o waith. Byddai cael lle go iawn yn ddatganiad enfawr gan ddiwylliant Cymru, ac amdano.

Fel artist sy'n gwneud comics gwleidyddol, rydw i'n teimlo'n fregus weithiau. Mae'r sefydliadau a'r cyhoeddiadau sy'n fy nghefnogi'n eithriadol o bwysig i fi, am eu bod nhw'n teimlo fel clawdd diogel rhyngof i fel unigolyn, a'r bobl a allai ddigio â'r hyn rydw i'n ei wneud. Mae'n torri'r hualau, mewn ffordd. Mae gan gelfyddyd lais gwleidyddol, ac ni ddylai hwnnw, nac artistiaid, orfod teimlo eu bod yn cael eu hynysu.

A dweud y gwir, mae yna archwaeth enfawr am gelf wleidyddol sy'n berthnasol i wleidyddiaeth *leol*. Rydw i wedi cael pobl yn diolch i mi ar y stryd (â deigryn yn eu llygaid) am fy nghomics, a dyna'r math o beth sy'n fy nghynnal i.
Mae popeth yn digwydd mewn rhyw gyflwr o anobaith. Yn y cyfnod oedd cyn Etholiad Cyffredinol 2017, cafwyd y bwrlwm o gelf stryd yng nghefn gwlad y Canolbarth a oedd yn anghydweld, ac roedd yn galondid mawr ei weld.

llun: Bran Dearling



Enillodd **Briony Collins**, 22,
Wobr Ysgrifennu Nofel Caerwysg 2016, ac ar hyn o bryd
mae hi'n astudio ym Mhrifysgol Bangor.

Roeddwn i'n ifanc iawn yn darganfod iaith. Roedd y ffordd y byddai geiriau'n dod at ei gilydd mewn stori, neu'r gerddoriaeth a fyddai i'w chlywed mewn cerdd yn creu teimlad ym mêr fy esgyrn nad oeddwn i'n siŵr bod plant eraill yn ei deimlo. Dywedodd fy mam-gu wrthyf fy mod i, yn bedair oed, yn gorfod defnyddio'r geiriau mwyaf posib wrth siarad. Doedd dim byd yn 'neis' neu'n 'bert', roedden nhw bob amser yn 'rhyfeddol' ac yn 'eithriadol'. Doedd ganddi hi ddim syniad ble roeddwn wedi cael gafael ar eiriau o'r fath, ond gwyddai eu bod nhw rywsut yn sownd yn fy mhen. Gwyddai y byddwn i'n tyfu lan i fod yn awdur.

Er bod llenyddiaeth yn bwysig i mi, nid ymddengys ei bod yn cael ei thrysori i'r un graddau gan y genedl, yn enwedig y rheiny sy'n gyfrifol amdanom. Dagrau pethau i mi yw bod pynciau eraill yn cael blaenoriaeth dros Saesneg. Gellir derbyn grant i fod yn athro mathemateg a gwyddoniaeth, ond mae Saesneg ymhlith pynciau'r dyniaethau sy'n cael eu hesgeuluso. Teflir sen ar raddau mewn Saesneg, a'u dibrisio fel graddau nad ydyn nhw'n 'real', neu'n wastraff amser. Dydw i ddim yn honni am eiliad fod mathemateg a gwyddoniaeth ronyn yn llai pwysig na Saesneg fel pwnc. Mae mathemateg yn dysgu sgiliau dadansoddi a datrys problemau gwerthfawr iawn. Mae gwyddoniaeth yn creu sail ar gyfer deall y byd o'n cwmpas. Ond mae Saesneg – yn enwedig llenyddiaeth – yn dal *popeth* yn ei breichiau. Mae darllen ac ysgrifennu'n sgiliau na all pobl ym Mhrydain ddygymod hebddynt. Mae llyfrau a barddoniaeth yn cynnig gwersi pwysig mewn cerddoriaeth, seicoleg ac athroniaeth. Drwy gyfrwng celf rydym ni'n dysgu cydymdeimlad a hanes. Mae ochr dechnegol Saesneg yn dangos i ni sut i ddefnyddio a rheoli geiriau ac mae'r wedd greadigol yn ein grymuso i roi ein gwybodaeth ar waith.

Mae hi'n bwysig fod cenedl yn dechrau blaenoriaethu llenyddiaeth i'r un graddau â mathemateg a gwyddoniaeth. Mae darllen yn grefft na ddylai pobl orfod byw hebddi. Mae bod yn anllythrennog yn tanseilio hawliau dynol sylfaenol, ac mae meddu ar sgiliau ysgrifennu tila'n peri fod mynegi eich hun yn llawer anos. Gwelir llenyddiaeth gan lawer fel pwnc sy'n cael ei gyfyngu i lyfrau, ond mae'n ymdreiddio i bob rhan o'n bywydau. Drwy ei gosod mewn safle llai pwysig na mathemateg a gwyddoniaeth, mae llesiant y genedl yn dioddef.

Ar hyn o bryd rwy'n astudio Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Bangor. Nid dim ond edrych ar straeon yr ydw i. Rwy'n dysgu sut mae diwylliannau'r byd yn gweithio ar y lefel fwyaf cyfrin, a hynny drwy rym celfyddyd.

**Mae llyfrau a barddoniaeth yn cynnig gwersi pwysig mewn cerddoriaeth, seicoleg ac athroniaeth. Drwy gyfrwng celf rydym ni'n dysgu cydymdeimlad a hanes.**

llun: Kannan Raja)



Mae **Manon Steffan Ros**, 35,
yn artist ac awdur o Dywyn, Gwynedd.

Profiad digon cymysg oedd cael fy ngwahodd i gymryd swydd artist-ac-awdur-preswyl yng Nghastell Penrhyn, eiddo enfawr a mawreddog yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyrion Bangor. Fel y gallai unrhyw un sy'n fy nabod i neu fy ngwaith dystio, doeddwn i byth yn mynd i greu celf hawdd, hygyrch, hardd am y lle hwn a'i hanes. Penderfynais wneud y cysylltiad â phlanhigfeydd y caethweision yn Jamaica'n ganolbwynt fy arddangosfa. Y syniad oedd creu 'teimlad Ymddiriedolaeth Genedlaethol' nodweddiadol – carpedi moethus, tlysau bach wedi'u goreuro a chelfi mawrwych, ond y byddai'r elfennau'n anghytsain ac aflafar: ffotograffau o gaethweision ar y silff ben tân, lliain ag arno batrwm llongau caethweision dros fwrdd bychan. Dyma gydnabyddiaeth gynnil o'r gorffennol gwaradwyddus yr ydym ni'n tueddu i wthio dros ymylon ein cof, a'r dechrau, gobeithio, o symudiad i gyfeiriad wynebu erchyllterau gorffennol trefedigaethol nifer o feddiannau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Yr hyn nad oeddwn i'n ei ddisgwyl oedd y newid enfawr yn fy nghanfyddiad i o ystyr bod yn Gymraes, na'r croesholi a wnes ar fy hunaniaeth. A minnau wedi ystyried fy hun yn ddigon gwleidyddol graff bob amser, yn wybodus a rhyddfrydol, yn sydyn cefais fy hun yn pensynnu a oeddwn wedi rhoi digon o ystyriaeth i gaethwasiaeth a gwladychiaeth yng nghyd-destun fy Nghymreigrwydd i fy hun. Sylweddolais nad oeddwn erioed wedi ystyried fod Cymreigrwydd yn rhan o holl hanes yr Ymerodraeth, yr hanes sy'n fy ffieiddio gymaint.

Mae'r ymateb a gafwyd i'r arddangosfa wedi bod yn gymaint o agoriad llygad â'r broses greadigol. Sawl tro, gwelais sioc a braw ar wynebau pobl ar ôl iddyn nhw fod ar ymweliad - y cen yn syrthio oddi ar lygaid pobl, fel y digwyddodd i mi. Efallai y byddai'n well gan ambell un beidio â gwybod, a throi'u hwynebau ymaith rhag y dyfyniad gan Wilberforce yr oeddwn wedi'i frodio ar ddarn o gotwm gerllaw'r allanfa:

**"Ar ôl clywed hyn oll, efallai y dewiswch edrych i'r cyfeiriad arall, ond ni allwch byth eto ddweud nad oeddech chi'n gwybod."**

Rywsut, yn annisgwyl, symudwyd rhywbeth ynof i gan y cyfle i greu celfyddyd. Ro'n i wedi tybio fy mod yn berson cyflawn, wedi dod i ben i bob pwrpas â dysgu a datblygu, ond bellach rwy'n amau na ddof i byth i ben, a thrwy gelfyddyd, newidiais.

Llun: MSF



Mae **Sophie McKeand,** 41,
yn awdur a pherfformiwr o Wrecsam, a hi oedd Awdur Llawryfol
Pobl Ifanc Cymru rhwng 2016-18.

## Dangosodd y daith hon i mi sut y gall ymgysylltu onest ac angerddol â'r celfyddydau annog unigolion i archwilio'u hunain go iawn.

Doeddwn i erioed wedi cyfansoddi cerdd, nes 'mod i'n 28. Doedd gen i ddim diddordeb o gwbl mewn barddoniaeth. Yn yr ysgol, roedd, yn fy marn i, yn ddiflas, yn ddantlyd, yn amherthnasol i 'mywyd i. Ro'n i'n caru llyfrau, ac er mod i'n darllen yn awchus, wnes i erioed ystyried y gallwn fod yn awdur. Fe wnes i bob math o waith ar ôl gadael ysgol - caffis, bariau, gwerthu dros y ffôn, y banc - ond ro'n i'n fam sengl yn ugain oed. Dringais yr ysgol i fyny at swydd werthu oedd yn talu'n dda erbyn 'mod i'n 27, ond roeddwn i'n dal i deimlo'n anhapus iawn a heb fy nghyflawni, felly rhois y gorau i'r swydd er mwyn astudio am radd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol.

Doeddwn i ddim eisiau gwneud y modiwl barddoniaeth, ond roedd yn orfodol; ar amrantiad, roedd y meddylwyr anhygoel hyn o 'nghwmpas ymhobman; roedd y meddyliau hyn yn estyn amdanaf ar draws amser a gofod, gan roi help i mi weld y byd a'm lle i ynddo drwy lygaid hollol newydd. Clywn eu dull o weithio'n atsain ynof, a theimlais angen i adlewyrchu'r byd drwy gyfrwng barddoniaeth. Roedd yr ysfa ynof i ysgrifennu, ac i berfformio'r geiriau, yr un mor rymus ag yr oedd yn annisgwyl. Chwiliais am unrhyw beth a allai gefnogi'r ysfa, a deuthum ar draws nosweithiau meic-agored Cymdeithas Dead Good Poets yn Lerpwl. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, darganfûm Lenyddiaeth Cymru, wrth gystadlu yng Ngwobrau John Tripp, a dyma ddechrau ar berthynas hir a thoreithiog gyda nhw. Eisoes, rydw i wedi dechrau ar y daith o dalu'n ôl, ac rydw i a 'mhartner wedi cael ein hysbrydoli i sefydlu nosweithiau cerddoriaeth a llên llafar TheAbsurd yn Yr Wyddgrug.

Oherwydd y profiadau hyn, rwyf wedi treulio'r ddegawd ddiwethaf yn gweithio gyda'r celfyddydau mewn cymunedau. Dangosodd y daith hon i mi sut y gall ymgysylltu onest ac angerddol â'r celfyddydau annog unigolion i archwilio'u hunain go iawn; rhaid ymwneud yn llwyr â chydymdeimlad a deallusrwydd emosiynol er mwyn gallu gwir adlewyrchu'r byd o'n cwmpas, er mwyn i ni allu tyfu ac esblygu fel pobl. Mae dod yn artist a darganfod fy nghreadigrwydd wedi trawsnewid fy mywyd, gan greu lle y mae gen i gyswllt dwfn iawn ag ef, a, thrwy fynd â hyn ymhellach, rwyf wedi dod i gredu mai annog creadigrwydd yw un o'r ffyrdd y gallwn ni ddechrau deall yn well, a chefnogi ein gilydd yn y gymuned ehangach i ddod drwy'r cyfnod gwallgo hwn yr ydym ni oll yn byw ynddo.

llun: © artist



Mae **Wendy Ostler**, 62,
yn ddawnswraig a pherfformiwr o Gaernarfon.

Y cyfnod diweddar hwn yn fy mywyd yw'r tro cyntaf i mi ddawnsio go iawn ers fy ugeiniau, pan wnes i ddarganfod y don gyntaf o fentrau cymunedol dawns gyfoes yng Nghaerdydd, fel y rheiny gyda Rubicon. Roedd y profiadau hynny, yr adeg honno, i mi, yn rhoi'r fath ryddhad hanfodol rhag cyfyngiadau caethion bale. Ond yn y pen draw, fe fu bywyd bob dydd yn drech – fe gefais blant, ac ati. Ond pan ddaeth y cyfan yn ôl i mi, sylweddolais nad oeddwn wedi gwneud dim byd creadigol yn fy mywyd am chwarter canrif, ac roedd cael y cyfle hwnnw i greu yn rhagorol. Rydym ni'n wirioneddol ffodus yng ngogledd Cymru fod gennym ni sydd wedi croesi'r trigain oed gynifer o gyfleoedd i ddawnsio.

Roeddwn wedi colli fy nghymar ddwy flynedd cyn i mi ddechrau dawnsio eto, ac roeddwn i'n tynnu at ddiwedd cyfnod hir o alaru, ond deuthum i ddeall fod cryn dipyn o hwnnw'n weddill ynof. Sylweddolais mai'r hyn roeddwn i'n ei wneud oedd dawnsio er mwyn cael gwared ar y galar. Roedd yn rhyfeddol o iachusol a rhyddhaol.

Mae'r hyn yr ydw i'n ei wneud yn waith byrfyfyr bron i gyd, ac mae wedi tyfu'n ffordd eithriadol o rymus o fynegi teimladau ond hefyd o ddeall o ble mae'r emosiynau hyn yn fy nghorff. Mae'n rhoi hyder i mi wybod pryd i fynegi fy nheimladau, pryd i'w dawnsio nhw'n rhydd, a phryd i anadlu. Weithiau, mae'n teimlo fel pe bawn i'n goddiweddyd y broses feddwl, fy nheimladau sy'n dweud beth sydd angen cael gwared o fy meddwl.

Mae dychwelyd at ddawnsio wedi fy helpu i ddelio â bywyd. Mae'r fersiwn honno ohonoch chi y mae'r byd yn ei weld yn un arwynebol, ac mae hyn yn arbennig o wir wrth i chi heneiddio, a'r teimlad a gaf pan fydda i'n dawnsio yw 'mod i'n gallu bod yn bob fersiwn ohonof i fy hun. Weithiau, rwy'n ferch 8 oed sy'n dringo i ben y goeden gan gredu y gallaf oresgyn popeth; weithiau rwy'n cofio fy hun yn fam ifanc, a'r cariad at yr un bach yn golchi drosof yn llwyr ac, ar yr un pryd, deimlo'n hollol ddi-glem, heb syniad sut y byddwn yn ymdopi â phopeth. Gall y creadigrwydd hwn ein galluogi ni fel unigolion i ddod yn gyflawn, ac i gofio'r cyfan amdanom ein hunain.

**Mae'r fersiwn honno ohonoch chi y mae'r byd yn ei weld yn un arwynebol, ac mae hyn yn arbennig o wir wrth i chi heneiddio, a'r teimlad a gaf pan fydda i'n dawnsio yw 'mod i'n gallu bod yn bob fersiwn ohonof i fy hun.**

Llun: Cai Thomas



Mae **Siôn Tomos Owen**, 33,
yn artist, awdur a darlledwr o'r Rhondda.

## Os yw Cymru'n genedl o storïwyr, rhaid i ni ddeall na fu erioed o'r blaen gynifer o ffyrdd o adrodd y straeon hynny.

Ers blynyddoedd, roeddwn i wedi bod yn gweithio ar y syniad o gasglu straeon am Gwm Rhondda, yn Saesneg, gan arbrofi gyda ffurf ac ieithwedd. Pan gefais fy annog i wneud cais am Wobr Llenyddiaeth Cymru, roeddwn i'n gweithio fel golygydd straeon i *Pobol y Cwm*, felly roeddwn i wedi fy nhrochi lawer mwy mewn ysgrifennu yn Gymraeg, ac, o ganlyniad, dechreuais feddwl sut y byddai'r syniad yn gweithio yn Gymraeg yn hytrach na Saesneg. Oherwydd natur y stori, a'i lleoliad yn y Cymoedd, doeddwn i ddim yn meddwl ar y dechrau y byddai'n gweithio'n llawn yn Gymraeg, ond buan y daeth hynny'n reswm canolog dros wneud y cais. Roeddwn i'n mynd i ysgrifennu yn fy Nghymraeg Cymoedd i, gyda Saesneg wedi'i phlethu drwyddo. Unwaith y coleddais y syniad fod hwn yn mynd i fod yn brosiect dwyieithog fe agorodd ger fy mron fel blodyn, a throdd syniad oedd, yn fy marn i, yn dechrau colli'i sglein, yn rhywbeth newydd a chyffrous.

Y ffaith taw penderfyniad munud olaf oedd gwneud cais am y wobr wnaeth i fi benderfynu'i wneud yn nofel graffig. Rwy'n gallu tynnu lluniau'n glou iawn, ac roedd creu 10 tudalen o storifwrdd llawer yn haws na 'sgrifennu 5,000 o eiriau. Rydw i wedi bod yn darlunio ar yr iPad ers sawl blwyddyn bellach, ond pan ddaeth hi'n fater o ystyried y syniad hwn, gwelais taw dyma'r llwyfan perffaith. Defnyddiais fy lluniau Instagram o'r cymoedd i greu clytwaith Photoshop o strydoedd, bryniau, capeli, clybiau ac ati a'u troi'n un dirwedd, gan greu un lle a fyddai'n cynrychioli'r cymoedd i gyd. Yna byddwn i'n eu mewnforio i ProCreate ar yr iPad a'u darlunio fel un dref, ble lleolir y stori, Abereba. Yr hyn sy'n ddiddorol i fi yw bod y broses gelfyddydol hon wedyn wedi effeithio ar fy ffordd o feddwl ynghylch sut y byddai'r iaith yn gweithio yn yr un modd.

Os yw Cymru'n genedl o storïwyr, rhaid i ni ddeall na fu erioed o'r blaen gynifer o ffyrdd o adrodd y straeon hynny. Mae'r rhan fwyaf o wledydd y byd yn ddwyieithog, ac mae pobl erbyn hyn, fwyfwy, yn canfod eu straeon heb ffiniau. Testun, delweddau, perfformio, technoleg – rwy'n defnyddio'r holl elfennau hyn yn fy ngwaith. Beth bynnag sydd ei angen ar y stori, dyna sut y dylid ei chyflwyno.

Llun: Philip Warren



Mae **Tafsila Kahn**, 34,
yn feirniad ac ymgyrchydd dros hawliau anabl sy'n byw yng Nghaerdydd.

Dim ond dros y blynyddoedd diweddar hyn yr ydw i wedi dechrau newid fy ffordd o feddwl am gelf. Pan fydda i'n hel atgofion am fy mhrofiad yn yr ysgol uwchradd, 'celf' oedd peintio a thynnu lluniau, a doedd hwnnw ddim yn cael ei wneud mewn ffordd gynhwysol ar gyfer rhywun â nam ar y golwg. Rydw i o'r farn y dylem ni ailfeddwl am ein ffordd o addysgu. Mae angen i'r modd y mae celf yn cael ei ddysgu, darddu o lawer o ffurfiau gwahanol, yn ogystal â diwylliannau. Pe baech chi wedi gofyn i fi pan oeddwn yn yr ysgol sut roedd artist yn edrych, baswn wedi dychmygu dyn gwyn canol-oed, fwy na thebyg. Doedd dim byd yn dweud wrtha i sut y gallwn i gael mynediad i gelf, sut y gallwn i gymryd rhan.

Mae amrywiaeth yn hanfodol. Mae angen mewnbwn celfyddydol, o'r dosbarth i ystafell y Bwrdd, gan bobl fel fi sy'n deall anghenion cymhleth diwylliannau, rhyweddau a galluoedd corfforol gwahanol. I mi, fel llawer o bobl, profiad graddol fu ymwneud â chelf. Cefais fy nghyflwyno i fyd y theatr pan ddeuthum yn ymwybodol o sioeau Theatr y Sherman a oedd yn cynnwys disgrifiadau llafar. O hynny rwyf wedi cysylltu ag artistiaid sydd wedi arddangos gweithiau y gellir eu cyffwrdd. Fel arfer mae'r syniad o gelfyddyd mewn gofod arddangos yn sanctaidd, ac yn rhywbeth na ddylid mo'i gyffwrdd, ond bellach ceir artistiaid sy'n taflu'r syniad hwnnw o'r neilltu, ac sydd am i chi brofi'u gwaith ym mha ffordd bynnag sydd orau i chi. I berson â nam golwg, mae hynny'n newid popeth.

A gellir teimlo'r agwedd gynhwysol honno hyd yn oed yn fwy eang erbyn hyn. Rydw i wedi bod i sioeau dawns sy'n cael eu disgrifio'n weledol hyd yn oed. Mae llawer mwy y gellir ei wneud, ond mae cynnydd yn digwydd. Ond rhaid gweld newid ar lefel y gymdeithas, nid dim ond newidiadau mewn lleoliad neu ar gyfer cynhyrchiad unigol. Ac nid dim ond gwneud y pethau hyn sy'n bwysig: mae'n ymwneud â chreu rhwydwaith gyfathrebu er mwyn rhoi gwybod i bobl ag anableddau am bopeth sydd ar gael iddyn nhw.

Mae celfyddyd yn ymwneud â chydymdeimlo, â dysgu am bobl eraill, ac ni ddylid fy eithrio i oherwydd bod gen i gyfyngiadau ar hyn y medraf ei wneud. Gallwch gostrelu negeseuon o gelf, a gallaf innau ddysgu am feddyliau a syniadau pobl o ben arall y byd, ar yr amod fy mod i'n cael mynediad iddyn nhw.

**Mae angen mewnbwn celfyddydol, o'r dosbarth i ystafell y Bwrdd, gan bobl fel fi sy'n deall anghenion cymhleth diwylliannau, rhyweddau a galluoedd corfforol gwahanol.**

Llun: RNIB



Mae **Bridget Keehan**, 46,
yn wneuthurwr theatr wedi ei lleoli yng Nghaerdydd.

## Mae cael mynediad i gyfle a'r gefnogaeth i alluogi pobl i wneud dewisiadau ar gyfer eu bywyd, sy'n eu helpu i lewyrchu, yn hanfodol mewn cymdeithas deg

Mae'r rhan helaeth o fy mywyd i'n cael ei fyw ym myd dosbarth canol – mewn theatrau, canolfannau celfyddydol, prifysgolion – amgylchoedd a gysylltir â hunaniaeth dosbarth canol. Roedd llefydd o'r fath yn hollol estron i mi tan i mi gyrraedd fy ugeiniau, pan es i'n fyfyriwr o'r diwedd. Ar brydiau, maen nhw'n dal i deimlo'n estron.

Pan oeddwn i'n tyfu i fyny, byrdwn y neges yn ein cartref ceidwadol, Catholig, oedd bod myfyrwyr yn bobl wastraffus, a bod myfyrwyr celf yn fath arbennig o bobl wastraffus. Yn anuniongyrchol, fe wnes i gicio dros y tresi, datblygu'n rhywun oedd yn codi helynt yn yr ysgol, ac ar ôl cael fy niarddel, prin y byddwn i'n mynd o gwbl. Dechreuais ddwyn o siopau. Byddai'r arfer yn cael ei fwydo gan gywilydd, teimlad o anghyfiawnder ac, yn rhyfedd, gan deimlad o fod eisiau derbyn sêl bendith. Diwedd yr 80au oedd hi, ac, fel y gwelwn i bethau, dim ond plant crachaidd y dosbarth canol oedd yn mynd yn stiwdants, ac roedd yn rhaid i chi fod yn glyfar i fynd i'r coleg. Pan dynnai Dad fy nghoes y byddwn i'n cael fy hun yn Holloway, nid 'Royal' oedd yn ei feddwl e…

Roedd cyfrannu at incwm y teulu o oedran ifanc ac ennill fy nhamaid, mewn egwyddor, yn hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer cyrraedd fy mhen blwydd yn 16, sef yr oedran y disgwyliai fy rhieni y byddwn i'n gadael cartref ac ymorol drosof fy hun. Fe wnes i ystyried cofrestru i ymuno â'r Llu Awyr fel y gwnaethai fy mrawd. Euthum i swyddfa recriwtio'r RAF ac fe roeson nhw restr o swyddi i'w hystyried. Ar gyngor fy mrawd, nodais Air Traffic Control, ond ar ôl edrych ar fy nghymwysterau, neu yn hytrach, ddiffyg cymwysterau, awgrymodd y Swyddog Recriwtio fy mod i'n ymuno â'r adran weinyddol. Fe fyddwn, yn blwmp ac yn blaen, yn cael fy nhraddodi i'r garfan deipio.

Yn syml, mae'r gwahaniaeth yn ymwneud â chyfle a disgwyliadau diwylliannol eich dosbarth. Mae cael mynediad i gyfle a'r gefnogaeth i alluogi pobl i wneud dewisiadau ar gyfer eu bywyd, sy'n eu helpu i lewyrchu, yn hanfodol mewn cymdeithas deg. Mae'r sector rydw i'n gweithio ynddi nawr yn dal i fod yn brin o ran amrywiaeth mewn myrdd o ffyrdd. Os yw rhywun yn teimlo nad yw'n perthyn, mae'n hynod annhebygol o'i gynnig ei hun hyd yn oed pan allai'r cyfle fod yno, pe baen nhw'n edrych amdano'n ddigon craff (ac nid dweud y dylen nhw *orfod* craffu yr ydw i). Felly, caf fy nhynnu at greu theatr yn y system gyfiawnder troseddol, gan gadw llygad bob amser am rywun sydd eisiau cicio dros dresi system sydd wedi'u castio mewn rôl sy'n llai na'r hyn y maen nhw'n ei haeddu.

Llun: Wyn Mason



Mae **Rajvi Glasbrook Griffiths**, 33,
yn ddirprwy bennaeth ysgol ac yn ymgyrchydd sy'n byw yng Nghasnewydd, de Cymru.

*Mae creadigrwydd cyn bwysiced â llythrennedd.* Beth yn union yw ystyr hyn, a sut ydym ni'n ei ddysgu a'i feithrin mewn dosbarthiadau sy'n gwingo dan bwysau cwricwlwm gorlawn, profion cenedlaethol, cyllidebau sy'n crebachu a phwysau gan lywodraeth, rhieni a'r cyfryngau? Mae grym y data amrwd sy'n trafod perfformio mor hollbresennol, nes ei bod hi'n anodd gweld ble mae dechrau gweld addysg fel ffynhonnell profiad, cyfle ac agorydd llygad ar y byd.

Yng Nghymru, o ganlyniad i dynnu TGAU Llenyddiaeth Saesneg o'r targedau cyrhaeddiad yn 2017, tynnwyd y cyfle i astudio llenyddiaeth oddi wrth dri chwarter y disgyblion. Yn wir, ceir miloedd o fyfyrwyr ifanc sydd ddim wedi edrych ar gerdd na darn o lenyddiaeth ar ôl gadael Blwyddyn 8. Mae'n ychwanegu at ryw deimlad cyffredinol fod y celfyddydau'n edwino mewn ysgolion.

Mae cyfalaf diwylliannol yn un o'r ffurfiau mwyaf grymus o gael symudedd cymdeithasol a chynnydd – mae'n lefelwr mawr – ac mae'r celfyddydau, heb os, yn gyfrwng. Gall dramâu, cerddoriaeth, paentiadau, lluniau, cyngherddau, theatr stryd, amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd marchnadoedd a hyd yn oed sgyrsiau yn y dafarn, fod yn drawsnewidiol. Y tu hwnt i fod yn baratoad ar gyfer y farchnad swyddi, mae cael mynediad i'r celfyddydau i bob myfyriwr yn bwysig ynddo'i hun. Mae celfyddyd yn darparu ffordd o wneud synnwyr o'r byd ac o'r hunan, ac mae bywyd a gyfoethogir gan ddiwylliant creadigol yn fywyd sy'n llawn o bosibilrwydd. Mewn cyfnod pan fo problemau iechyd meddwl yn ofid sylweddol mewn ysgolion, mae'r celfyddydau'n darparu llythrennedd emosiynol.

Os nad ydym i weld creadigrwydd yn cael ei neilltuo o gorneli'r dosbarth ynghyd â'r bagiau ffa, botymau a ffyn glud, mae'n hanfodol cael pwyslais a darpariaeth gwricwlaidd rymus. Gwnaed cyfres o argymhellion pwerus yn adroddiad annibynnol yr Athro Dai Smith ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2013 ym maes Addysg yn y Celfyddydau yn Ysgolion Cymru. Yn galonogol, cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014, a oedd yn cytuno â phob un o'r deuddeg argymhelliad.

Dim ond drwy gael profiadau celfyddydol a chreadigol cyfoethog mewn ysgolion, a rhoi iddynt eu lle dyladwy mewn cwricwlwm cynhwysol, y gallwn ni greu pobl ifanc grwn a chyflawn. A dim ond drwy sicrhau fod hyn oll ar gael i bawb, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig, y gallwn ni feithrin holl botensial dinasyddion y dyfodol yn llawn.

**Mewn cyfnod pan fo problemau iechyd meddwl yn ofid sylweddol mewn ysgolion, mae'r celfyddydau'n darparu llythrennedd emosiynol.**

Llun: Jonathan Glasbrook Griffiths

## Y gwasanaethau a ddarperir gennym

- **Rydym ni'n cefnogi ac yn datblygu gweithgarwch celfyddydol o ansawdd uchel** – rydym ni'n buddsoddi arian cyhoeddus, gan ddefnyddio'r arian hwn i greu cyfleoedd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau

- **Rydym ni'n dosbarthu arian Loteri** – drwy gyfrwng ceisiadau i'n rhaglenni cyllid Loteri, rydym ni'n gallu ariannu prosiectau sy'n datblygu gweithgareddau celfyddydol newydd, gan gefnogi unigolion, cymunedau a sefydliadau

- **Rydym ni'n darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol am y celfyddydau** – ni yw canolbwynt rhwydwaith genedlaethol o wybodaeth a doethineb am y celfyddydau yng Nghymru. Mae gennym hefyd gysylltiadau rhyngwladol cryf yn y DU a thu hwnt. Drwy gyfrwng ein Cyngor, ein staff a'n Ymgynghorwyr Cenedlaethol, rydym ni'n meddu ar y crynhoad mwyaf o arbenigedd celfyddydol arbenigol yng Nghymru

- **Rydym ni'n codi proffil y celfyddydau yng Nghymru** – ni yw llais cenedlaethol y celfyddydau yng Nghymru, gan hybu ansawdd, gwerth a phwysigrwydd artistiaid a sefydliadau celfyddydol y wlad

- **Rydym ni'n cynhyrchu mwy o arian ar gyfer economi'r celfyddydau** – rydym ni'n rheoli mentrau fel y Cynllun Casglu (ein cynllun sy'n annog mwy o bobl i brynu celf); rydym ni'n sicrhau fod cyllid o Ewrop ar gael i feithrin y celfyddydau yng Nghymru; ac mae gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol, gartref a thramor, sy'n agor y drws ar farchnadoedd newydd i artistiaid o Gymru

- **Rydym ni'n annog arloesi ac arbrofi** – rydym ni'n hybu prosiectau a mentrau sy'n trawsnewid y celfyddydau yng Nghymru. O'n partneriaeth celfyddydau mewn addysg gyda Llywodraeth Cymru (Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau) i newid technolegol (Ymchwil a Datblygu Digidol), rydym ni'n chwilio'n gyson am ffyrdd newydd y gall pobl daro ar y celfyddydau a'u darganfod

- **Rydym ni'n dylanwadu ar gynllunwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau** – mae'r celfyddydau'n digwydd mewn llawer o leoliadau amrywiol. Gallant gael effaith ddramatig ar ansawdd bywydau pobl ac ar y lleoedd ble maen nhw'n byw a gweithio. Mae'r celfyddydau wrth wraidd mentrau ar gyfer adfywio economaidd a chymdeithasol yn aml hefyd. Ein gwaith ni yw sicrhau fod y cyfraniad y gall y celfyddydau'i wneud yn cael ei gydnabod

- **Rydym ni'n datblygu cyfleoedd rhyngwladol ym maes y celfyddydau** – drwy gyfrwng ein hasiantaeth arbenigol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, rydym ni'n datblygu partneriaethau â sefydliadau diwylliannol fel y Cyngor Prydeinig, rydym ni'n hybu'n rhyngwladol ddiwylliant cyfoes Cymru, ac rydym ni'n annog cyfnewid a chydweithio rhyngwladol rhwng artistiaid a sefydliadau celfyddydol

- **Rydym ni'n hybu perfformiadau ar raddfa fechan mewn cymunedau lleol** – mae ein cynllun Noson Allan yn darparu cymhellion ariannol i annog hybu gweithgareddau celf o ansawdd uchel mewn lleoliadau cymunedol lleol ledled Cymru

## Ein Cynllun Gweithredol

Gallwch ganfod mwy o fanylion am ein gwaith fesul blwyddyn drwy ddarllen ein Cynllun Gweithredol.

## Cysylltu â ni


Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Biwt
Caerdydd
CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900
(Codir tâl am negeseuon yn ôl eich graddfa rhwydwaith safonol yn unig)

Ffacs: 029 2044 1400

SMS: 07797800504
(Codir cyfradd safonol rhwydwaith y galwr yn unig am negeseuon)

www.celf.cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®